
# Adroddiad Blynyddol Cadeiryddion Bwrdd Cyflawni Burns

Ionawr 2023

## Galluogi teithiau cynaliadwy ar draws De-ddwyrain Cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CARDIFF
CAERDYDD

monmouthshire
sir fynwy

NEWPORT
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
CASNEWYDD

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES



# Cynnwys

**Cipolwg ar y flwyddyn** 3

Effaith Leol Camau
Rhanbarthol Graddfa
Genedlaethol
Ein Ffordd o Weithio

**Datganiad gan y Cadeiryddion** 4

**Cyflwyno Uned Gyflawni Burns** 6

Cefndir
Uned a Bwrdd Cyflawni Burns Ein
cylch gwaith a'n ffyrdd o weithio
Cwblhau ein gwaith

**Gwelliannau i brif reilffordd De Cymru** 7

**Caerdydd i Gasnewydd** 9

**Canol dinas Casnewydd** 10

**Cerdded a beicio** 11

**Sir Fynwy** 12

**Newid ymddygiad** 13

**Dull cydweithredol** 14

Gweithio gyda'n partneriaid yn yr awdurdod lleol

**Heriau allweddol** 15

Heriau cyllid cyflawni rheilffyrdd
Heriau cyllido'r gyllideb Gweithio'n rhanbarthol
Deddfwriaeth Cynllunio

**Blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn** 16

Blaenoriaethau allweddol
Ein hamserlen wrth symud ymlaen

**Ein hamserlen** 17

**Argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru** 18

# Cipolwg ar y flwyddyn

Cafodd Bwrdd Cyflawni Burns (y Bwrdd) ei greu yn ystod 2021 i ddod â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol at ei gilydd i gyflawni'r 58 argymhelliad a wnaed gan Gomisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWTC) yr Arglwydd Burns. Caiff y Bwrdd ei gadeirio'n annibynnol gan yr Athro Simon Gibson CBE a Dr Lynn Sloman MBE, ac fe'i cefnogir gan Uned Gyflawni Burns (yr Uned) yn Trafnidiaeth Cymru (TrC).

Yn ystod 2022 rydym wedi gweithio'n galed i gyflawni, neu fwrw ymlaen â gwaith sy'n bwysig yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

## Effaith Leol

Rydyn ni wedi gallu helpu awdurdodau lleol i gyflwyno mesurau i wella darpariaeth cerdded, beicio a'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yn y rhanbarth yn ystod 2022.  Fe wnaethom ariannu cynllun peilot teithio am ddim ar fysiau lleol yng Nghasnewydd ym mis Mawrth 2022, a oedd yn adeiladu ar eu cynllun teithio am ddim dros y Nadolig a arweiniodd hyn at gyflawni cynnydd o 10% yn nifer y teithwyr.  Rydym hefyd yn arbennig o falch o weld gwasanaethau storio beiciau diogel arloesol yn agor yng nghanol Caerdydd a Chasnewydd ym mis Tachwedd 2022, fel man cychwyn i'n cynlluniau llawer mwy ar gyfer y llwybr allweddol hwn.

## Camau Rhanbarthol

Yn dilyn adborth gan y cyhoedd, mae'r Uned wedi datblygu cynlluniau ar gyfer seilwaith beicio a bysiau uchelgeisiol er mwyn cysylltu Caerdydd a Chasnewydd yn well. Rydyn ni wedi nodi y byddai gwasanaeth Bysiau Cyflym o fudd i deithwyr, ac rydyn ni wedi dechrau gwneud gwaith ar sut y dylai edrych. Mae cynnydd tebyg wedi'i wneud ar ein cynlluniau i wella canol Casnewydd a mynediad i orsaf reilffordd Cyffordd Twnnel Hafren.
Byddwn yn bwrw ymlaen i benderfynu ar yr opsiwn gorau ar gyfer pob un o'r prosiectau seilwaith rhanbarthol pwysig hyn ac yn sicrhau'r cyllid sydd ei angen i'w rhoi ar waith – gweler yr adran Heriau Allweddol yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

## Graddfa Genedlaethol

Rydym wedi sicrhau £2.7m o gyllid gan Lywodraeth y DU er mwyn i Trafnidiaeth Cymru ddatblygu gwelliannau i Brif Reilffordd De Cymru ac i adeiladu gorsafoedd newydd arni rhwng Caerdydd a Chyffordd Twnnel Hafren.

Mae'r gwaith datblygu wedi hen ddechrau a byddwn yn defnyddio'r canlyniadau i barhau i argymell y newidiadau i bob Llywodraeth y tro nesaf y caiff penderfyniadau eu gwneud yn 2023.
Rydyn ni hefyd yn falch o weld diwydiant rheilffyrdd Cymru'n cyrraedd carreg filltir newydd, drwy gyflwyno'r trenau newydd sbon cyntaf i'r gwasanaeth yng Nghymru ers cenhedlaeth. Ym mis Tachwedd 2022, lansiwyd y grŵp cyntaf o drenau Class 197 newydd, a gafodd eu gwneud yng Nghymru yn ffatri CAF yng Nghasnewydd.

Yn ogystal â gwella seilwaith ffisegol, rydyn ni'n gweld cynnydd ar bethau sy'n ei gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, fel tocynnau integredig a mynediad at wybodaeth am wasanaethau, er bod mwy o waith i'w wneud.

## Ein Ffordd o Weithio

Mae gennym ddull cydweithredol o weithio, gyda'r Uned a'r tri awdurdod lleol yn cydweithio'n agos i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy sy'n gweithio i bawb ar draws y rhanbarth. Rydym hefyd yn ceisio symleiddio'r broses datblygu a gwerthuso sy'n gallu bod yn gymhleth ac yn araf, fel y gallwn sicrhau gwell gwerth am arian a gwneud i welliannau ddigwydd yn gynt. Rydym yn ymwybodol iawn bod angen i newidiadau ddigwydd yn gyflym er mwyn cyflawni targedau Llywodraeth Cymru i leihau carbon ac ar gyfer cyfran gwahanol ddulliau teithio yn 2030, ac rydym am chwarae ein rhan i gyflawni'r targedau hynny.

# Datganiad gan y Cadeiryddion




**Yr Athro Simon Gibson CBE Cadeirydd**

**Dr. Lynn Sloman MBE Is-gadeiryddr**

Mae cludo pobl, nwyddau a gwasanaethau'n effeithiol yn hanfodol i gymdeithas ac i'r economi. Ond rhaid rhoi sylw i'r amgylchedd a chanlyniadau'r hinsawdd wrth gyflawni hyn. Er mwyn dod o hyd i'r cydbwysedd angenrheidiol hwnnw, mae'n hanfodol ei gwneud yn hawdd i bobl newid i wahanol ddulliau trafnidiaeth, gan deithio mwy ar droed, ar feic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Ond yn ogystal â 'newid dull' yn ein patrymau teithio, mae angen newid dull yn y ffordd rydym yn meddwl am drafnidiaeth, canlyniadau economaidd a ffyniant. Credwn yn gryf na ellir cael economi ffyniannus yn Ne Ddwyrain Cymru heb y seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy o ansawdd uchel a'r gwasanaethau effeithlon sydd gan bob economi ranbarthol lwyddiannus arall ledled Ewrop.

Mae'r pwysau cynyddol ar ein seilwaith teithio yn bygwth ein gallu i gyflawni hyn. Gallai'r cynnydd ym mhoblogaeth y DU a'r bygythiad sydd ar y gorwel o leihau gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus o ganlyniad i doriadau ariannol ehangach yn y DU greu storm berffaith o fwy o dagfeydd traffig a mwy o niwed i'r amgylchedd. Mae Sero Net Cymru wedi gosod targedau i leihau allyriadau CO2 o 63% erbyn 2030 a milltiroedd ceir y pen o 10%. Gallwn gyrraedd y targedau hyn drwy wneud dewisiadau teithio mwy cynaliadwy, ond mae angen i'r dewisiadau hyn fod yn gyfleus, yn ddiogel ac yn hygyrch.

Gwaith Bwrdd Cyflawni ac uned gyflawni Burns yw sicrhau bod 58 argymhelliad yr Arglwydd Burns a Chomisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru yn cael eu gwireddu. Yr amcan clir yw sicrhau gwelliannau sylweddol i wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a'r seilwaith teithio llesol ar draws De-ddwyrain Cymru, ardal lle mae rhwydweithiau trafnidiaeth gwael, tagfeydd a llygredd yn bla.

Does dim dwywaith fod y rhain yn dasgau heriol. Mae angen dyraniadau cyllid sylweddol ar nifer ohonynt ar adeg o ddirywiad economaidd. Mae llawer o'r prosiectau'n gymhleth ac yn cymryd amser i gynllunio, cynnal ymgynghoriadau ac ymgymryd â'r gwaith cyhoeddus cysylltiedig. Bydd anhwylustod dros dro yn cael ei achosi wrth eu rhoi ar waith, ond byddant yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol i gymunedau a'r amgylchedd yn y tymor hir.

Mae hyd yn oed y cynlluniau a'r uchelgeisiau gorau yn ddiwerth heb y cyllid i'w gwireddu. Rydym yn galw ar yr holl bartneriaid cyllido i anrhydeddu'r ymrwymiadau sydd eisoes wedi'u gwneud i'r Rhanbarth i roi'r gwaith seilwaith mawr ar waith, gan gynnwys:

- Gwelliannau i Brif Reilffordd De Cymru
- Gwelliannau yng Nghanol Dinas Casnewydd
- Gwella mynediad at orsaf Cyffordd Twnnel Hafren
- Llwybrau beicio a Gwibffordd Fysiau rhwng Caerdydd a Chasnewydd

Rydym yn cael ein calonogi gan nifer o brosiectau sy'n hyrwyddo teithio llesol ar draws y Rhanbarth a ddechreuodd gael eu cyflwyno yn ystod 2022.
Dwy enghraifft dda yw'r ddwy ganolfan parcio beiciau ddiogel sydd bellach ar agor yng Nghanol Dinasoedd Caerdydd a Chasnewydd, sy'n rhoi tawelwch meddwl i feicwyr wrth ddod â'u beiciau i ganol y dinasoedd.

Rydym yn gwerthfawrogi'r lefelau uchel o gydweithio rhwng yr Uned Gyflawni, Llywodraeth Cymru, TrC ac awdurdodau lleol. Mae'r dull tîm cyfan hwn wedi ein galluogi i symud yn gyflym a sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i fuddiannau'r Rhanbarth cyfan.

Mae'r gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud gan dîm yr Uned ac Ysgrifenyddiaeth Llywodraeth Cymru yn dal i greu argraff arnom, a hoffem ddiolch iddynt am eu cefnogaeth a'u gwaith caled.

Mae'r amserlen a'r cynllun cyflawni yn yr Adroddiad Blynyddol hwn yn dangos yr hyn y credwn y gellir ei gyflawni pan fo pawb yn gweithio gyda'i gilydd.
Erbyn 2029, rydym am weld chwe gorsaf drenau newydd ar Brif Reilffordd De Cymru, mwy o wasanaethau rheilffyrdd a bysiau'n ffurfio un rhwydwaith integredig; llwybrau beicio ar wahân i gymudwyr yng Nghasnewydd a Chaerdydd a rhwng y ddwy ddinas a gwell darpariaeth i gerddwyr, yn enwedig i gyrraedd gorsafoedd trenau a bysiau.

Gyda'r 'rhwydwaith o ddulliau teithio amgen' newydd hwn ar waith a thrwy gynllunio defnydd tir yn well, gall pawb yn Ne-ddwyrain Cymru deithio'n fwy cynaliadwy a chwarae rhan yn y gwaith o leihau effeithiau newid hinsawdd.



Bws Trydan yng Nghasnewydd. (Hawlfraint Simon Ingham)

# Cyflwyno Uned Gyflawni Burns

## Cefndir

Bu SEWTC, dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Burns, yn ymchwilio i ffyrdd cynaliadwy o fynd i'r afael â thagfeydd ar yr M4 yn Ne-ddwyrain Cymru. Canfu'r Arglwydd Burns nad oes gan lawer o bobl ddewisiadau trafnidiaeth amgen da yn lle'r draffordd. Nid yw'r cyfuniad o rwydweithiau a gwasanaethau rheilffyrdd, bysiau a theithio llesol yn darparu ar gyfer yr amrywiaeth o deithiau y mae pobl yn eu gwneud. Y canfyddiad cyffredinol oedd bod angen opsiynau trafnidiaeth newydd sylweddol ar Dde-ddwyrain Cymru. Mae dirfawr angen y newid hwn – yr M4 o amgylch Casnewydd yw'r bedwaredd draffordd drefol waethaf o ran tagfeydd yn y DU, a Chaerdydd yw'r brif ddinas waethaf yn y DU o ran cysylltiadau rheilffordd.

Mae argymhellion Burns yn canolbwyntio ar 'rwydwaith o ddulliau teithio amgen' newydd. Nod y rhwydwaith yw rhoi dewisiadau teithio mwy cystadleuol i bobl a busnesau na defnyddio ceir preifat ar y draffordd.

Ar ôl ei gwblhau, bydd y 'rhwydwaith o ddulliau teithio amgen' yn cynnig gwelliannau sylweddol o ran rheilffyrdd, bysiau a theithio llesol a all helpu i sicrhau'r newid hwn mewn dulliau teithio.

Mae'r 58 o argymhellion terfynol a gyflwynwyd gan y Comisiwn ym mis Tachwedd 2020 wedi'u nodi yn Atodiad A. Ym mis Ionawr 2021, derbyniodd Gweinidogion Cymru bob un o argymhellion y Comisiwn mewn egwyddor, ynghyd â chynllun i gyflawni'r argymhellion hyn.

## Uned a Bwrdd Cyflawni Burns

Mae'r Bwrdd yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru, Network Rail ac awdurdodau lleol Caerdydd, Casnewydd, a Sir Fynwy. Caiff y Bwrdd ei gadeirio'n annibynnol gan yr Athro Simon Gibson CBE a Dr Lynn Sloman MBE, gyda chymorth aelod o Ysgrifenyddiaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r Uned yn cynnwys aelodau arbenigol o staff Trafnidiaeth Cymru (TrC) sy'n cynnwys rheoli prosiectau, rheilffyrdd, bysiau, teithio llesol, risg, data dadansoddol a chyfathrebu. Darperir cefnogaeth gan dîm technegol allanol ehangach lle bo angen, gyda chyllid ar gyfer yr Uned a'r tîm technegol yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru.

## Ein cylch gwaith a'n ffyrdd o weithio

Mae gan y Bwrdd a'r Uned dair prif swyddogaeth:



1. **Cynllunio**
   Datblygu rhaglen fanwl ar gyfer datblygu argymhellion Burns.



2. **Monitro**
   Cael gwybodaeth weithredol am argymhellion Burns sydd ar y gweill gan TrC neu bartïon eraill.



3. **Arwain**
   Bwrw ymlaen ag argymhellion Burns nad ydynt ar y gweill gan TrC nac eraill.

## Cwblhau ein gwaith

Bydd gwaith y Bwrdd a'r Uned wedi'i gwblhau pan fydd y Bwrdd a Gweinidogion Cymru yn fodlon bod argymhellion Burns wedi'u hymgorffori'n ddigonol mewn rhaglenni cyflawni fel Metro De Cymru, ac nad oes angen yr Uned mwyach i oruchwylio cynnydd.

# Gwelliannau i Brif Reilffordd De Cymru


Yn argymhellion Burns ar gyfer ‘rhwydwaith o ddulliau teithio amgen’ newydd mae asgwrn cefn i’r rheilffyrdd sy’n cynnwys gorsafoedd newydd a gwasanaethau i deithwyr y gellir eu darparu drwy welliannau i Brif Reilffordd De Cymru, sydd wedi’i thrydaneiddio, ar y cyd â Crossrail yng Nghaerdydd. Bydd y gwelliannau hyn yn cynyddu nifer y trenau newydd a seddi ychwanegol sydd ar gael i deithwyr ar adegau prysur.

Trenau trydan yw un o’r ffyrdd mwyaf gwyrdd o deithio. Maen nhw’n fwy distaw ar gyfer teithwyr a’r bobl sy’n byw’n agos at y rheilffordd, mae ganddynt amseroedd teithio cyflymach a gwell cyflymiad, mae eu costau gweithredu’n is o’u cymharu â threnau disel ac maent yn ysgafnach, sy’n golygu eu bod yn achosi llai o draul ar y cledrau a bod eu costau cynnal a chadw’n is.

Bydd mynediad cyhoeddus i’r rhwydwaith rheilffyrdd yn cael ei drawsnewid drwy ychwanegu chwe gorsaf newydd a fydd yn gallu darparu teithiau trên amgen ar gyfer y teithiau cymudo amlaf rhwng Caerdydd, Casnewydd a Bryste.

Mae holl argymhellion Burns ynghylch y rheilffyrdd yn cael eu cyflawni nawr drwy raglen Prif Reilffordd De Cymru TrC, sy’n cydlynu anghenion yr holl brosiectau rheilffyrdd yn y rhanbarth. Mae gan y rhaglen hon hefyd gysylltiadau allweddol â rhaglenni’r Metro ar gyfer Bae Abertawe a Gorllewin Cymru, Crossrail yng Nghaerdydd ac i raglen Awdurdod Cyfun Gorllewin Lloegr sydd wedi’i lleoli ym Mryste ar gyfer gwasanaethau teithwyr trawsffiniol.

Gyda’i gilydd, bydd y gorsafoedd lleol newydd yn galluogi pobl i wneud amrywiaeth ehangach o deithiau gan ddefnyddio’r rhwydwaith rheilffyrdd, heb orfod teithio i ganol dinasoedd i gyrraedd y prif orsafoedd. Bydd pob gorsaf newydd yn ymgorffori seilwaith gwyrdd ac yn hawdd ei chyrraedd ar fws neu ar droed ac ar feic, gyda chyfleusterau storio beiciau diogel a llogi beiciau wedi’u darparu i annog pobl i deithio’n llesol.




Argymhellion Burns: Y rhwydwaith o ddulliau teithio amgen ar gyfer De-ddwyrain Cymru

Yn ei adroddiad terfynol, nododd yr Adolygiad o Gysylltedd yr Undeb (UCR) – dan arweiniad Syr Peter Hendy – mai un o'r prif bryderon oedd "Lliniaru tagfeydd ar goridor yr M4 yn Ne Cymru, yr adroddodd Comisiwn Burns arno i Lywodraeth Cymru yn ddiweddar, a'r gwelliannau i Brif Reilffordd De Cymru sy'n deillio o hynny". Ym mis Ebrill 2021, fe wnaeth yr UCR sicrhau bod cronfa ddatblygu ar gael i fwrw ymlaen â'r pryderon allweddol hyn.

Yn 2022, llwyddodd yr Uned yn ei chais i gronfa ddatblygu'r Adolygiad o Gysylltedd yr Undeb a chafodd £2.7m gan Adran Drafnidiaeth y DU. Ar hyn o bryd, mae tîm rhaglen Prif Reilffordd De Cymru TrC yn defnyddio'r cronfeydd hyn i fwrw ymlaen â'r astudiaethau technegol sydd eu hangen ar gyfer llunio amserlenni trenau, dyluniadau dichonoldeb gorsafoedd ac achos busnes amlinellol.

Ar ôl cwblhau'r gwaith hwn yn ystod 2023, bydd angen i Lywodraeth Cymru, yr Adran Drafnidiaeth a Network Rail wneud penderfyniad ynghylch symud ymlaen i'r cam datblygu nesaf ac yna cyflawni – gweler yr adran Heriau Allweddol yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Yn y cyfamser, ymgorfforwyd holl argymhellion Burns ar y rheilffyrdd yng Nghynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol Llywodraeth Cymru a fydd yn cael ei lansio ddechrau 2023 ac sy'n nodi'r rhaglenni a'r polisïau i gyflawni Strategaeth Drafnidiaeth Cymru am y 5 mlynedd nesaf.

Mae TrC a diwydiant rheilffyrdd Cymru wedi cyrraedd carreg filltir arall, wrth i'r trenau newydd sbon cyntaf yng Nghymru ers cenhedlaeth ymuno â'r gwasanaeth. Ym mis Tachwedd 2022, lansiwyd trenau newydd TrC, a gafodd eu hadeiladu yng Nghymru yn ffatri newydd CAF ym Mharc Busnes Celtic yng Nghasnewydd. Buddsoddodd CAF £30m yn y cyfleuster a fydd yn cwblhau'r gwaith o gydosod 77 o drenau Class 197 newydd.



Trenau Class 197 newydd a adeiladwyd yng Nghasnewydd ac sydd bellach yn gweithredu yng Nghymru

# Caerdydd i Gasnewydd

Er mai'r gwelliannau i'r rheilffyrdd fydd yn cael yr effaith fwyaf o ran lleihau tagfeydd ar ein ffyrdd, mae gan well rhwydweithiau bysiau, beicio a cherdded rôl fawr i'w chwarae hefyd. Mae hefyd yn gyflymach rhoi seilwaith bysiau a theithio llesol newydd ar waith, felly bydd pobl yn cael dewisiadau gwell yn gynt.

Mae'r Uned yn gweithio ochr yn ochr â Chynghorau Dinas Caerdydd a Chasnewydd i ddylunio llwybrau bysiau a beicio o ansawdd uchel ar yr A48 a'r NCN88 rhwng Caerdydd a Chasnewydd. Mae llawer o deithiau mewn ceir ar y draffordd yn dechrau ac yn gorffen yng Nghaerdydd a Chasnewydd, felly bydd y gwelliannau hyn i gyfleusterau bysiau a beiciau yn rhoi mwy o ddewisiadau i gyfran sylweddol o gymudwyr.

Mae argraff arlunydd o'r lonydd bysiau a beiciau di-dor hyn i'w gweld isod.

## Coridor Bysiau a Theithio Llesol Caerdydd a Chasnewydd

**Ein nod yw:**

*"Darparu dewisiadau deniadol yn lle ceir i bobl sy'n teithio rhwng Caerdydd a Chasnewydd drwy seilwaith bysiau, beicio a cherdded rhagorol, sydd hefyd yn cysylltu â'r gorsafoedd trenau arfaethedig ym Mharcffordd Caerdydd a Gorllewin Casnewydd."*

**Datblygiadau:**

- Cafwyd dros 1700 o ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Chwefror-Mawrth 2022, a dangoswyd cefnogaeth i un opsiwn ar yr A48 a chefnogaeth gref i bob un o'r tri opsiwn ar yr NCN88.
- Mae'r Bwrdd, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Caerdydd a Chasnewydd wedi cytuno ar y cyd bod angen cynigion mwy uchelgeisiol ar gyfer gwasanaethau bysiau o ansawdd uchel.
- Bydd yr opsiwn mwy uchelgeisiol hwn i wella ansawdd gwasanaethau bysiau a seilwaith yn cael ei rannu â'r cyhoedd yn 2023, ac ar ôl hynny bydd y Bwrdd yn dewis yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio



# Canol dinas Casnewydd

Mae’r Uned yn gweithio ochr yn ochr â Chyngor Dinas Casnewydd i wella mynediad ar fysiau, ar droed ac ar feiciau i orsaf reilffordd Casnewydd Canolog, ar hyd Queensway, a drwodd at lan yr afon.

Bydd y gwaith yn ategu pont feicio a cherdded newydd Devon Place yng ngorsaf Casnewydd, a fydd yn agor i’r cyhoedd ddechrau 2023.


Bydd y newidiadau hyn yn gwneud trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol yn fwy deniadol, ar yr un pryd â darparu cysylltiadau haws a chyflymach i’r rhwydwaith reilffyrdd. Byddant hefyd yn caniatáu gwelliannau pellach i lwybrau bysiau, beicio a cherdded mewn rhannau eraill o’r ddinas.



Golygfa o’r awyr o gylchfan Old Green Casnewydd hyd at orsaf Casnewydd Canolog

Mae cynigion drafft ar gyfer gwelliannau i dir y cyhoedd y tu allan i orsaf reilffordd Casnewydd Canolog i’w gweld isod. Bydd y rhain yn darparu gwell cysylltiadau rhwng gwasanaethau bysiau a threnau, a gwell mynediad i’r orsaf ar droed ac ar feic.

Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal ym mis Chwefror 2023 i geisio barn y cyhoedd ar yr opsiynau sy’n cael eu hystyried. Bydd hyn yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer dyfodol tymor hir y murluniau, sy’n cyfleu rôl hanesyddol trafnidiaeth yn natblygiad Casnewydd yn y 19eg ganrif.



## Gwelliannau i Seilwaith Casnewydd Canolog

**Ein nod yw:**

*“I orsaf drenau Casnewydd fod yn ganolbwynt ar gyfer teithio cynaliadwy, drwy allu cyfnewid yn ddi-dor rhwng y seilwaith rheilffyrdd, bysiau, beicio a cherdded, sy’n cysylltu â chanol y ddinas a’r cymdogaethau cyfagos.”*

**Datblygiadau:**

- Mae rhagor o waith datblygu wedi’i gwblhau i wella opsiynau’r Old Green a Chasnewydd Canolog, sy’n cynnwys gwerthusiadau modelu traffig, astudiaeth creu lleoedd ac adolygiad o’r gallu i adeiladu.
- Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal ym mis Chwefror 2023.
- Mae’r Bwrdd yn bwriadu dewis opsiwn sy’n cael ei ffafrio yn 2023.
- Mae’r Uned hefyd yn bwrw ymlaen â gwaith i wneud bysiau’n fwy dibynadwy a gwella mynediad i ganol Casnewydd ar feic ar hyd Heol Caerdydd a Heol Malpas.

# Cerdded a beicio

Fel rhan o gais i wella'r seilwaith beicio a cherdded ar draws De-ddwyrain Cymru, dyfarnwyd grantiau Teithio Llesol Llywodraeth Cymru drwy'r Uned i awdurdodau lleol Caerdydd a Chasnewydd i ariannu dwy ganolfan storio beiciau ddiogel gyntaf Cymru.

## Astudiaeth achos: The Bike Lock, Caerdydd

Mae The Bike Lock yn ofod storio beiciau a gweithio ar y cyd annibynnol yng nghanol dinas Caerdydd. Fel menter gymdeithasol, mae'n cynnig lle i storio 80 o feiciau ynghyd â chyfleusteraucawod a chaffi.

Dywedodd Tom Overton, perchennog Bike Lock "Diolch i gyfraniad ariannol yr Uned fel rhan o'r buddsoddiad cyffredinol yn The Bike Lock, rydyn ni'n gallu darparu'r cyfleuster o ansawdd uchel hwn er mwyn helpu i wneud teithio cynaliadwy yn brofiad gwych yng Nghaerdydd. Wrth i ni groesawu ein cwsmeriaid a'u beiciau drwy'r drws, mae'n wych gweld cynifer o bobl yn defnyddio teithio llesol fel rhan o'u diwrnod. Bellach, mae gan bobl le diogel i adael eu beiciau, cael cawod os oes angen a phaned wych o goffi yng nghanol y ddinas."




## Astudiaeth achos: Spokesafe Casnewydd

Mae Spokesafe Casnewydd yn cynnig mynediad 24/7 i feicwyr sydd angen lle diogel i adael beiciau wrth fynd i ganol y ddinas.

Sefydlwyd y cyfleuster gan Gap Wales, elusen ar lawr gwlad yng Nghasnewydd. Dywedodd Mark Seymour, rheolwr prosiect Gap Wales, "Rydyn ni i gyd yn gwybod beth yw manteision beicio o ran gwella iechyd a lles corfforol a meddyliol. Mae'r risg bod rhywun yn dwyn eich beic wedi bod yn rhwystr i bobl sydd eisiau beicio i ganol y ddinas. Mae'r cyllid hwn wedi ein caniatáu i fynd i'r afael â'r mater hwn drwy lansio canolfan feiciau cymunedol diogel, sych dan do sy'n cael ei fonitro gan deledu cylch cyfyng, lle gall pobl fod yn sicr bod eu beiciau mewn dwylo diogel."




Bydd yr Uned yn monitro llwyddiant y cynlluniau peilot hyn er mwyn deall effaith gwahanol atebion ar gyfer storio beiciau.

# Sir Fynwy

Mae'r Uned yn gweithio gyda Chyngor Sir Fynwy i ystyried opsiynau i wella mynediad bysiau i orsaf reilffordd Cyffordd Twnnel Hafren. Byddai'n well gan Gyngor Sir Fynwy pe bai hynny'n cynnwys cysylltiad â'r M48 ac i'r ffordd honno gael ei hail-ddosbarthu fel ffordd A, yn hytrach na thraffordd. Mae'r gwaith o brofi'r opsiynau'n mynd rhagddo i lywio'r broses o benderfynu ar ateb sy'n cael ei ffafrio y gall Cyngor Sir Fynwy a Llywodraeth Cymru gytuno arno.

Bwriad y cynllun yw helpu i sicrhau newid mewn dulliau teithio tuag at drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio drwy ddarparu cysylltiadau haws a chyflymach â'r rhwydwaith rheilffyrdd hefyd. Mae Panel Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r cynigion hefyd, ac maent yn aros am ymateb i'w hargymhelliad gan Lywodraeth Cymru.

Mae argraff artist o'r gwelliannau i orsaf reilffordd Cyffordd Twnnel Hafren i'w gweld yn y gornel dde uchaf, gyda chysylltiadau bysiau a theithio llesol da i'r orsaf ac ardal gyhoeddus well.





Trên yn nesáu at orsaf Cyffordd Twnnel Hafren

## Mynediad i Orsaf Cyffordd Twnnel Hafren

**Ein nod yw:**

*"Darparu mynediad teithio cyfleus, dibynadwy a chynhwysol i orsaf Cyffordd Twnnel Hafren sy'n rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio bysiau a theithio llesol"*

**Datblygiadau:**

- Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2022, a dderbyniodd bron i 600 o ymatebion.
- Gan ddefnyddio'r adborth a gafwyd gan y cyhoedd, mae rhagor o waith datblygu opsiynau wedi cael ei wneud sy'n cynnwys ehangu'r cysylltiadau cerdded, beicio a bws i'r orsaf ochr yn ochr ag astudiaeth creu lleoedd yn yr orsaf.
- Bwriad y Bwrdd yw ail-rannu cynigion yr opsiwn gyda'r cyhoedd a dewis yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio yn 2023, yn amodol ar ganfyddiadau'r Panel Adolygu Ffyrdd.

# Newid mewn ymddygiad

Ochr yn ochr â'r gwaith i wella seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy, mae'r Bwrdd wedi bod yn edrych ar yr hyn sydd ei angen i'w gwneud yn hawdd ac yn ddeniadol i bobl gerdded, beicio a mynd ar y bws neu'r trên.

## Beth sy'n gwneud i bobl newid eu hymddygiad wrth deithio?

Er mwyn i bobl newid sut maen nhw'n teithio, rhaid i bopeth fod yn iawn:

- Rhaid i'r cyfle i deithio'n gynaliadwy fodoli; dyna pam rydyn ni'n gweithio i wella'r seilwaith ar gyfer cerdded, beicio, bysiau a threnau
- Rhaid i bobl allu cael gafael ar y gwasanaethau trafnidiaeth cynaliadwy sydd ar gael ar gyfer eu teithiau a'u defnyddio
- Mae'n rhaid iddi deimlo'n normal i gerdded, beicio neu ddal y bws neu'r trên, hyd yn oed os gallech chi fynd yn y car

## Helpu i ddarparu gweithgareddau newid ymddygiad yn 2023

Drwy gydol 2022, mae'r Uned wedi gweithio gyda Chynghorau Caerdydd, Casnewydd a Sir Fynwy i ddatblygu rhaglen o weithgareddau i gefnogi newid mewn ymddygiad, gan weithio gyda busnesau a chymunedau lleol ledled y rhanbarth.

Bydd y gweithgareddau hyn yn cael eu darparu gan y sefydliad elusennol, Newport Live, drwy gydol 2023. Maent yn cynnwys y canlynol:

- Cynllunio teithio yn y gweithle ac ymgysylltu â chyflogwyr.
- Hyfforddiant cynnal a chadw a sgiliau beicio i oedolion.
- Presgripsiynu cymdeithasol ar gyfer cerdded, beicio a theithio cynaliadwy, i ddarparu manteision iechyd.

**Dywed Prif Swyddog Gweithredol Newport Live, Steve Ward:**

"Er mwyn i raglen fel hon lwyddo, rydyn ni'n credu bod yn rhaid i ni weithio ar y cyd i ddeall a lleihau'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan. Bydd llysgenhadon lleol yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o weithio gyda phob cymuned. Rydym yn bwriadu gweithio ar draws y rhanbarth, gan ddarparu cyfleoedd i bawb. Rydym yn gobeithio y bydd ein gwaith yn 2023 yn gosod y sylfeini ar gyfer gweithgareddau a gwasanaethau newid ymddygiad parhaus ar ôl i drigolion ddechrau gweld manteision gwell seilwaith cerdded, beicio a bysiau yn y ddinas a'r rhanbarth yn ystod y blynyddoedd nesaf."




Enghraifft o ddyfais cyfrif beicwyr yng Nghymru (Hawlfraint photojB)

# Dull cydweithredol

### Gweithio gyda'n partneriaid yn yr awdurdod lleol

Dim ond drwy gydweithio rhwng Llywodraeth Cymru, TrC a chynghorau Caerdydd, Casnewydd a Sir Fynwy – y gellir cyflawni argymhellion Burns.

Mae'r Uned yn darparu adnoddau i ddatblygu mesurau o bwysigrwydd rhanbarthol, ond a fydd hefyd yn darparu manteision lleol. Mae'r Uned yn adrodd i'r Bwrdd ac awdurdodau lleol; fodd bynnag, mae gan yr awdurdodau lleol reolaeth dros newidiadau i'w rhwydweithiau lleol. Ein nod yw gweithio mewn ffordd gydweithredol, effeithlon a phragmatig, i ddarparu'r 'rhwydwaith o ddewisiadau amgen' a argymhellwyd gan Gomisiwn Burns cyn gynted ac mor effeithlon â phosibl.

**Y Cyng Jane Mudd, Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd**



"Mae adeiladu Casnewydd gryfach a mwy gwyrdd yn flaenoriaeth i'r cyngor. Mae rhan o hyn yn golygu gwella mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a dewisiadau teithio llesol, ac rydyn ni'n falch iawn o fod yn gweithio gyda phartneriaid ar draws Bwrdd Cyflawni Burns ar brosiectau a fydd yn gwneud hynny. Bydd cynlluniau i droi gorsaf drenau Casnewydd yn ganolbwynt ar gyfer teithio cynaliadwy, ynghyd â chreu amgylchedd sy'n canolbwyntio mwy ar bobl ar Queensway a chylchfan Old Green yn cryfhau'r cynnig hwn ymhellach, a'r gobaith yw y bydd yn helpu pobl i fod yn llai dibynnol ar geir. Edrychwn ymlaen at helpu i gyflwyno'r prosiectau hyn, a sicrhau newid gwirioneddol a chynaliadwy, i Gasnewydd, a hefyd i ranbarth ehangach y de-ddwyrain."

**Y Cyng. Dan De'Ath, Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth yng Nghyngor Caerdydd**



"Bydd y gwaith parhaus gyda Bwrdd Cyflawni Burns yn hanfodol i wella'r llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus rhwng Casnewydd a Chaerdydd; ac mae gwaith astudio manwl yn mynd rhagddo i sicrhau bod cysylltiadau bysiau a beiciau yn cael eu gwella rhwng y ddwy ddinas. Hoffem ddiolch hefyd i'r Bwrdd am y cyllid grant tuag at gyfleuster beicio diogel yng nghanol y ddinas eleni. Byddwn yn ceisio gwneud cais am gyllid ar amrywiaeth o gynlluniau i wella trafnidiaeth gyhoeddus a chyfleoedd cerdded a beicio rhwng Caerdydd a Chasnewydd ar sail canlyniad yr astudiaethau."

**Y Cyng. Mary Ann Brocklesby, Arweinydd Cyngor Sir Fynwy**



"Rydyn ni'n falch iawn o fod yn gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Cyflawni Burns i gyflawni'r argymhellion, sy'n gyfle amserol i newid ymddygiad mewn ffordd sydd wir yn trawsnewid y ffordd rydyn ni'n teithio o amgylch y rhanbarth. Rydym yn croesawu'r gyfnewidfa drafnidiaeth gyhoeddus arfaethedig a'r cyswllt cysylltiedig â'r M48, a fydd yn hanfodol i hwyluso llif traffig sy'n effeithio ar gymunedau ar y B4245 rhwng Cil-y-coed a Magwyr. Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid a thrigolion lleol i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiect unigryw Gorsaf Llwybr Cerdded Magwyr, sy'n cael ei arwain gan y gymuned. Rydyn ni hefyd yn falch o arwain y ffordd fel yr Awdurdod peilot sy'n gweithio gyda Chomisiwn Dylunio Cymru a Trafnidiaeth Cymru i sicrhau bod twf strategol yn y dyfodol yn ein Cynllun Datblygu Lleol Newydd wedi cael ei gysylltu'n dda, yn canolbwyntio ar deithio ac yn ddatblygiad enghreifftiol."

# Heriau allweddol

Mae nifer o heriau a allai effeithio ar gyflawni argymhellion Burns yn llwyddiannus:

### Heriau o ran cyllido darpariaeth rheilffyrdd

Bydd angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol i adeiladu gorsafoedd newydd a chludo mwy o deithwyr ar Brif Reilffordd De Cymru.

Rydym yn ddiolchgar am y cyllid rydym wedi'i gael gan gronfa ddatblygu'r Adolygiad o Gysylltedd yr Undeb i fwrw ymlaen â'r astudiaethau technegol sydd eu hangen. Bydd y cyllid hwn yn mynd â ni i bwynt lle gallwn wneud penderfyniad yn 2023.

Bydd angen rhagor o gyllid gan Lywodraeth y DU i fwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni'r gwelliannau i'r seilwaith rheilffyrdd yn llawn. Felly, rydym yn annog Llywodraeth Cymru, yr Adran Drafnidiaeth a Network Rail i barhau i gydweithio drwy Fwrdd Rheilffyrdd Cymru sydd newydd gael ei ffurfio i ddatblygu'r prosiectau ar y cyd a sicrhau'r cyllid sydd ei angen ar Lywodraeth y DU.

### Heriau o ran cyllido'r gyllideb

Bydd gwasgu sylweddol ar gyllidebau Llywodraeth Cymru yn y blynyddoedd nesaf oherwydd effeithiau canlyniadol toriadau cyllid yn San Steffan. Mae risg y bydd hyn yn golygu nad oes digon o gyllid ar gael i gyflwyno cynlluniau seilwaith allweddol, ac y bydd oedi cyn eu rhoi ar waith.

Ein dull ni yw datblygu cynlluniau hyd nes eu bod nhw'n gyflawn, fel eu bod yn barod i fynd pan fydd cyllid ar gael

### Gweithio rhanbarthol

Mae'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig rhanbarthol newydd yn datblygu eu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n nodi sut y byddant yn darparu cyfleusterau a gwasanaethau trafnidiaeth diogel, integredig, effeithlon ac economaidd ym mhob rhanbarth.
Mi wnaeth yr Uned gwrdd ag Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ystod haf 2022, a bydd yn cynnal deialog barhaus yn 2023, i annog dull gweithredu cydgysylltiedig sy'n integreiddio argymhellion Burns a rhaglenni strategol Metro TrC yn y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

### Cynllunio

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn oedi cyn lansio ei Nodyn Cyngor Technegol newydd (TAN 15) ar gyfer datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol. Mae awdurdodau lleol yn herio geiriad presennol y Nodyn Cyngor Technegol newydd gan y gallai beryglu'r gwaith o gyflawni prosiectau seilwaith mawr yn y rhanbarth.

Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gynnal ymgynghoriad newydd ar fersiwn diwygiedig o'r Nodyn Cyngor Technegol gyda rhanddeiliaid allweddol, ac rydym yn obeithiol y bydd modd cael ateb boddhaol.

### Deddfwriaeth

Dim ond ar ôl i wasanaethau bysiau gael eu rheoleiddio y gellir cyflawni nifer o argymhellion Burns ar gyfer integreiddio trafnidiaeth gyhoeddus yn llawn. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru'n cyflwyno Bil Gwasanaethau Bysiau yn y Senedd cyn gynted â phosibl, er mwyn galluogi system integredig gydag "un rhwydwaith, un amserlen ac un tocyn" ar draws yr holl wasanaethau bysiau a threnau yn Ne Ddwyrain Cymru.

# Blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2023 yw'r rhaglen gwella rheilffyrdd; llwybrau bysiau a beicio o ansawdd uchel rhwng Caerdydd a Chasnewydd; uwchraddio coridorau cerdded, beicio a bysiau i ganol dinas Casnewydd ac o amgylch y canol; gwell mynediad i Gyffordd Twnnel Hafren ar gyfer gwasanaethau bysiau newydd gyda seilwaith cerdded a beicio; a chychwyn rhaglen newid ymddygiad.

Er mwyn cynnal y momentwm hwn tuag at gyflawni, bydd angen penderfyniadau cyllido a chymeradwyo amserol gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Felly, rydym yn annog ein partneriaid i weithio gyda'i gilydd i sicrhau nad yw'r penderfyniadau hyn yn cael eu gohirio.

**Dyma'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod:**

- Cyflawni'r astudiaethau ac amlinellu achosion busnes ar gyfer gorsafoedd a gwasanaethau newydd, sydd eu hangen i gyfrannu at benderfyniadau cyllido rheilffyrdd gan Lywodraeth Cymru, yr Adran Drafnidiaeth a Network Rail
- Cyflwyno'r achosion busnes llawn ar gyfer ein hargymhellion trafnidiaeth gynaliadwy ar gyfer:
  - Llwybrau bysiau a beicio o ansawdd uchel rhwng Caerdydd a Chasnewydd
  - Uwchraddio coridorau bysiau, beicio a cherdded yng nghanol dinas Casnewydd
  - Uwchraddio mynediad yng ngorsaf Cyffordd Twnnel Hafren ar gyfer gwasanaethau bws newydd
- Cydweithio rhwng Cyngor Casnewydd a'r Uned i ddarparu achosion busnes amlinellol ar gyfer llwybrau bysiau a beicio o ansawdd uchel i ganol Casnewydd, gan gynnwys Heol Caerdydd, Heol Malpas a Heol Cas-gwent
- Gweithio gyda Newport Live i ddarparu gweithgareddau newid ymddygiad a gyda Chyngor Casnewydd i fwrw ymlaen â'u cynllun llogi beiciau

## Ein hamserlen wrth symud ymlaen

Mae'r amserlen a'r cynllun cyflawni dros y dudalen yn dangos yr hyn rydyn ni'n credu y gellir ei gyflawni yn ystod y 7 mlynedd nesaf drwy'r Uned Gyflawni Burns.

Erbyn 2029, rydym am weld chwe gorsaf drenau newydd yn agor ar Brif Reilffordd De Cymru, mwy o wasanaethau rheilffyrdd a bysiau'n ffurfio un rhwydwaith integredig, llwybrau beicio ar wahân i gymudwyr yng Nghasnewydd a Chaerdydd a gwell darpariaeth i gerddwyr, yn enwedig i gyrraedd gorsafoedd trenau a bysiau.

Gyda'r 'rhwydwaith o ddulliau teithio amgen' hwn ar waith, bydd gan bawb yn Ne-ddwyrain Cymru y grym i deithio'n fwy cynaliadwy ac i chwarae rhan yn y gwaith o atal Newid Hinsawdd.




Lee Waters AS Y Dirprwy Weinidog dros Newid yn yr Hinsawdd yn torri'r rhuban wrth agor Spokesafe Casnewydd ym mis Tachwedd 2022

# Ein llinell amser

## Uned Gyflawni Burns: Ysgogi datblygiad Rhwydwaith Trafnidiaeth Integredig

| Rhaglen | Argymhelliad |
|---|---|
| Cynllun Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru | Datblygu'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol |
| | Cyflwyno Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) |
| Newid mewn ymddygiad | Canolfannau peilot gweithio o bell |
| | Gweithgareddau peilot newid ymddygiad Casnewydd |
| Un Rhwydwaith, un amserlen, un tocyn | Talu-Wrth-Deithio ar fysiau a threnau yn Ne-ddwyrain Cymru |
| | Cyhoeddi manylion Prisiau Teg ar gyfer Trafnidiaeth Gyhoeddus |
| | Ap Cynllunio taith integredig newydd TrC |
| Seilwaith newydd i ddarparu system Drafnidiaeth fwy cynaliadwy ac effeithlon | Agor cyfleusterau diogel newydd i barcio beiciau yng Nghaerdydd a Chasnewydd |
| | Lansio cynllun llogi beiciau newydd yng Nghasnewydd |
| | Uwchraddio llwybrau bysiau, beicio a cherdded rhwng Caerdydd a Chasnewydd (mewn camau) |
| | Uwchraddio mynediad bysiau, beiciau a cherdded i orsaf Cyffordd Twnnel Hafren |
| | Uwchraddio mynediad bysiau, beiciau a cherdded i orsaf Cyffordd Twnnel Hafren |
| | Datblygu gorsafoedd rheilffordd newydd rhwng Caerdydd a chyffordd Twnnel Hafren |
| | Cynyddu'r gwasanaethau i deithwyr i Maesteg a Glynebwy |
| | Uwchraddio Prif Linell De Cymru i ganiatáu mwy o wasanaethau i deithwyr |
| | Cyflwyno gwasanaethau newydd i deithwyr rhwng Gorllewin Cymru a Bryste |
| | Cyflwyno gorsafoedd a gwasanaethau trên newydd rhwng Caerdydd a Chyffordd Twnnel Hafren |



# Argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru

| Rhif | Argymhelliad y Comisiwn | Amcan o'r Amserlen Datblygu a Chyflawni |
|---|---|---|
| 1 | Ad-drefnu Prif Reilffordd De Cymru i wahanu gwasanaethau cymudo lleol oddi wrth wasanaethau rhwng dinasoedd. Uwchraddio llinellau lliniaru er mwyn i'r pedwar trac allu gweithredu hyd at 90mya | 2021 - 2026 |
| 2 | Cymeradwyo dyhead Cyngor Caerdydd a Llywodraeth Cymru i ymestyn Crossrail Caerdydd i orsaf newydd bosibl yn Heol Casnewydd | 2021 - 2029 |
| 3 | Cymeradwyo cynlluniau ar gyfer gorsaf newydd Parcffordd Caerdydd yn Llaneirwg*<br>**Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi galw'r penderfyniad i roi caniatâd cynllunio i Barcffordd Caerdydd i mewn. Rydyn ni'n monitro'r broses hon ac yn obeithiol y bydd y broses yn cael ei datrys yn effeithlon er mwyn osgoi rhagor o oedi wrth i'r orsaf newydd hon fynd rhagddi.* | 2021 - 2024 |
| 4 | Gorsaf newydd Gorllewin Casnewydd | 2021 - 2029 |
| 5 | Gorsaf newydd Dwyrain Casnewydd | 2021 - 2029 |
| 6 | Cymeradwyo cynlluniau ar gyfer gorsaf newydd yn Llan-wern | 2021 - 2029 |
| 7 | Cymeradwyo'r cynnig am orsaf newydd ym Magwyr | 2021 - 2029 |
| 8 | Cymeradwyo cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau ychwanegol o Lundain a Bryste Temple Meads i Gaerdydd, Abertawe a Gorllewin Cymru | 2024- 2028 |
| 9 | Uwchraddio Rheilffordd Maesteg | 2022 - 2027 |
| 10 | Cwblhau'r gwaith o uwchraddio rheilffordd Glynebwy | 2022 - 2027 |
| 11 | Uwchraddio gorsaf Pen-y-bont ar Ogwr | 2021 - 2026 |
| 12 | Uwchraddio gorsaf Casnewydd | 2021 - 2026 |
| 13 | Cymeradwyo uchelgais Cyngor Caerdydd i sefydlu cyfres o Goridorau Bysiau Craidd | 2021 - 2030 |
| 14 | Coridor bysiau cyflym newydd rhwng Caerdydd a Chasnewydd | 2021 - 2026 |
| 15 | Mynediad uniongyrchol o ansawdd uchel i gerddwyr ym mhob gorsaf gyda blaenoriaeth dros geir | 2021 - 2029 |
| 16 | Llwybrau cerdded a beicio pwrpasol a diogel gydag arwyddion i'w dynodi lle mae gorsafoedd bysiau a threnau yn agos at ei gilydd | 2021 - 2029 |
| 17 | Cymeradwyo cynlluniau Cyngor Caerdydd ar gyfer llwybrau beicio newydd ar wahân | 2021 - 2025 |
| 18 | Uwchraddio Llwybr 88 presennol y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol | 2021 - 2026 |
| 19 | Llwybr beicio newydd i gymudwyr ar hyd yr A48 | 2021 - 2026 |
| 20 | Ehangu cyfleusterau storio diogel ar gyfer beicwyr mewn gorsafoedd a mannau eraill yn y gyfnewidfa drafnidiaeth | 2022 - 2023 |
| 21 | Cynllun llogi beiciau newydd yng Nghasnewydd | 2022 - 2024 |
| 22 | Cysylltu Gorsaf Parcffordd Caerdydd â llwybrau beicio a llwybrau bysiau cyflym Caerdydd | 2021 - 2026 |
| 23 | Ailddylunio'r ardal fawr y tu allan i orsaf Casnewydd Canolog i ddarparu cyfleusterau newydd ar gyfer y bae bysiau | 2021 - 2024 |
| 24 | Darparu mynediad cerdded a beicio da i orsaf Llan-wern o bentrefi Llan-wern, Ringland a Llysweri | 2021 - 2029 |
| 25 | Uwchraddio mynediad ar y ffordd i orsaf Cyffordd Twnnel Hafren er mwyn caniatáu mynediad i fysiau | 2021 - 2026 |
| 26 | Ad-drefnu Cylchfan Old Green yng nghanol Casnewydd | 2021 - 2026 |
| 27 | Gwella'r flaenoriaeth i fysiau ar Gyffordd y Senotaff a Phont Clarence Place | 2022 - 2026 |
| 28 | Seilwaith newydd sy'n rhoi blaenoriaeth i fysiau ar hyd Heol Cas-gwent | 2022 - 2026 |

| Rhif | Argymhelliad y Comisiwn | Amcan o'r Amserlen Datblygu a Chyflawni |
|---|---|---|
| 29 | Seilwaith newydd sy'n rhoi blaenoriaeth i fysiau ar hyd Heol Malpas | 2022 - 2026 |
| 30 | Seilwaith newydd sy'n rhoi blaenoriaeth i fysiau ar hyd Heol Caerdydd | 2022 - 2026 |
| 31 | Seilwaith newydd sy'n rhoi blaenoriaeth i fysiau wrth groesffordd yr A48 a'r A4810 | 2022 - 2026 |
| 32 | Gwella seilwaith i hwyluso beicio i gymudwyr ar goridorau bysiau | 2022 - 2023 |
| 33 | Drafftio strategaeth cludo nwyddau ar lefel ranbarthol sy'n canolbwyntio ar ddinasoedd Caerdydd a Chasnewydd | 2022 - 2026 |
| 34 | Cynnig taliadau digyswllt â cherdyn clyfar ar bob gwasanaeth trafnidiaeth ar y rhwydwaith | 2021 - 2024 |
| 35 | Integreiddio trefniadau tocynnau ar gyfer cwmnïau trenau a bysiau mewn un system docynnau | 2021 - 2025 |
| 36 | Cysoni prisiau tocynnau ar gyfer teithiau o hyd tebyg | 2021 - 2024 |
| 37 | Cyflwyno system barthau unedig, wedi'i hintegreiddio â Metro De Cymru i wasanaethu Caerdydd, Casnewydd a'r ardaloedd cyfagos | 2021 - 2024 |
| 38 | Cydlynu gwasanaethau trafnidiaeth yng ngorsafoedd Gorllewin Casnewydd a Chyffordd Twnnel Hafren | 2021 - 2029 |
| 39 | Defnyddio un brand cyffredinol ar gyfer yr holl wasanaethau trafnidiaeth ar y rhwydwaith, pwy bynnag fo'u gweithredwr | 2021 - 2025 |
| 40 | Cymeradwyo 'Gweledigaeth Gwella Gorsafoedd' Trafnidiaeth Cymru sy'n gosod safonau sylfaenol ar gyfer gorsafoedd sy'n hyb, yn gyfnewidfa neu'n orsaf traws-rwydwaith | Completed |
| 41 | Ymestyn safonau sylfaenol Trafnidiaeth Cymru i orsafoedd bysiau ac arosfannau bysiau ar y coridorau bysiau cyflym | 2022 - 2025 |
| 42 | Sicrhau bod gwybodaeth fyw am drafnidiaeth a data amserlenni ar gael i wasanaethau trydydd parti er mwyn hwyluso integreiddiad â rhaglenni sy'n bodoli eisoes | 2021 - 2024 |
| 43 | Helpu Awdurdodau Lleol i ddarparu cynllunio teithio i'r gweithle neu greu uned gyflenwi newydd yn Trafnidiaeth Cymru (TrC) | 2022 - 2024 |
| 44 | Cymeradwyo bwriad Llywodraeth Cymru i ddarparu safleoedd gweithio o bell ar draws y prif drefi, dinasoedd a chanolfannau trefol yn Ne-ddwyrain Cymru | 2022 - 2024 |
| 45 | Defnyddio ystod lawn yr ystâd gyhoeddus yn fwy hyblyg, gan fanteisio ar y portffolio eiddo i ddarparu lleoedd i weithio'n agos at le mae pobl yn byw | 2021 - 2023 |
| 46 | Peidio â chyflwyno RUC cynhwysfawr ar draws ffyrdd De-ddwyrain Cymru yn absenoldeb cynllun ledled y DU | TBC |
| 47 | Ystyried Ardollau Parcio yn y Gweithle unwaith y bydd dewisiadau amgen a fframwaith polisi ar waith (Awdurdodau Lleol) | 2022 - 2024 |
| 48 | Ffurfioli'r bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru, ac Awdurdodau Lleol i lywodraethu'r gwaith o ddylunio a gweithredu trafnidiaeth yn Ne-ddwyrain Cymru | 2021 - 2023 |
| 49 | Gwella'r model llywodraethu bysiau presennol (Partneriaeth) | 2021 - 2023 |
| 50 | Ailgyflwyno'r Bil Gwasanaethau Bysiau cyn gynted â phosibl yn ystod Tymor nesaf y Senedd | 2022 - 2025 |
| 51 | Lleoli cyflogaeth yng nghanol trefi a dinasoedd ac nid ar y cyrion yn agos at y draffordd | 2021 - 2029 |
| 52 | Cynyddu dwysedd datblygu o amgylch gorsafoedd a choridorau'r rhwydwaith | 2021 - 2029 |
| 53 | Cymeradwyo'r datganiadau polisi lefel uchel ym Mholisi Cynllunio Cymru 10 a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol | Completed |
| 54 | Llunio prif gynllun ar gyfer y rhanbarth drwy'r Cynllun Datblygu Strategol | 2021 - 2023 |
| 55 | Rhoi cyngor ar oblygiadau trafnidiaeth gynaliadwy'r lleoliadau strategol a nodwyd ar gyfer datblygu drwy Trafnidiaeth Cymru | 2021 - 2026 |
| 56 | Parhau i graffu ar Gynlluniau Datblygu Lleol a thynnu sylw at geisiadau unigol sydd mewn perygl o beidio â chyd-fynd ag egwyddorion defnydd tir tai a chyflogaeth a ddisgrifir yn yr adroddiad | 2021 - 2029 |
| 57 | Sefydlu tîm cyflawni ar y cyd ar ôl ystyried yr argymhellion | Completed |
| 58 | Nodi ffyrdd i gyflymu'r broses o gyflwyno coridorau beicio a bysiau cyflym, hyd yn oed os mai dim ond fel cynllun peilot y gwneir hynny (Awdurdod Lleol) | 2021 - 2023 |